# Dadansoddi Hysbysebion

## Dadansoddi Hysbysebion Print – Fframwaith o Gwestiynau

**Portread Pobl – Cynrychioliadau**

- Nodwch oedran/rhyw/ethnigrwydd y bobl.
- A ydyn nhw'n bobl gyffredin/enwogion/arbenigwyr?
- Sut mae cynulleidfaoedd yn cael eu hannog i gydymdeimlo â nhw/uniaethu â nhw/dyheu i fod yn debyg iddyn nhw/ymddiried ynddyn nhw?
- Beth mae'r codau dillad yn ei awgrymu?
- Gwnewch sylwadau am eu hymddaliad/ystumiau/mynegiad wyneb.
- A oes ystrydebau y gellir eu hadnabod? A yw ystrydebau'n cael eu herio mewn unrhyw ffordd?
- Gwnewch sylwadau am y pethau o'u hamgylch – y mise-en-scène [popeth arall yn y ffrâm].
- Beth mae'r lleoliad/y pethau o'u hamgylch yn ei ychwanegu at sut mae'r bobl yn yr hysbyseb yn cael eu cynrychioli?
- Sut mae'r cynrychioliadau'n cysylltu â'r cynnyrch sy'n cael ei hyrwyddo?

**Codau Technegol**

- Pa godau lliw sy'n cael eu defnyddio?
- Pa fath o saethu camera sy'n cael ei ddefnyddio? Saethiad agos/saethiad canolig/saethiad pell/saethiad ongl isel/saethiad ongl uchel? Esboniwch pam.
- A yw holl elfennau'r ddelwedd mewn ffocws? Os na, pam nad ydyn nhw? A oes hierarchaeth o elfennau yn y ffrâm?
- Beth am godau goleuo? A yw'n ymddangos yn naturiol? A oes golau cywair uchel neu gywair isel?

**Codau Ysgrifenedig/Testun**

- Sut mae'r slogan yn berthnasol i'r delweddau?
- Gwnewch sylwadau am y deipograffeg/ffont a ddefnyddiwyd. Beth mae'n ei ychwanegu at ddelwedd y brand?
- A oes logo? Ble mae wedi'i leoli?
- Pa wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y copi? Pam mae wedi cael ei chynnwys a beth mae'n ei ychwanegu at ddealltwriaeth cynulleidfa o'r cynnyrch/brand?
- A oes unrhyw ddyfeisiau perswadio wedi cael eu defnyddio?
- A yw'r ddelwedd yn arglwyddiaethu ar y testun?

## Dadansoddi Hysbysebion Print – Fframwaith o Gwestiynau

**Codau Gweledol**

- Ble mae'r hysbyseb wedi'i leoli? Sut rydym ni'n gwybod hynny? [codau mynegeiol]
- Pa wrthrychau/nodweddion arwyddocaol sydd yn yr hysbysebion?
- A yw'r cynnyrch ei hun yn ymddangos yn yr hysbyseb?
- Os na, pam nad ydyw? A yw'r hysbyseb yn gwerthu cysyniad/ffordd o fyw? Neu a yw'n gwerthu'r cynnyrch yn uniongyrchol?
- A oes codau lliw? Beth yw arwyddocâd y lliwiau?

**Pwrpas a Swyddogaeth yr Hysbyseb**

- A oes unrhyw naratif yn ffrâm yr hysbyseb?
- A yw'r hysbyseb yn rhan o ymgyrch?
- Beth mae'r hysbyseb yn ei addo? Pa wobrau sy'n cael eu hawgrymu o ganlyniad i brynu'r cynnyrch?
- Pa dechnegau perswadio sy'n cael eu defnyddio? Euogrwydd, bygythiad, seboni, gwobrwyo, addewid o berthyn?

**Cynulleidfa**

- Pwy yw'r gynulleidfa darged?
- A oes angen gwybodaeth flaenorol ar y gynulleidfa i werthfawrogi'r hysbyseb?
- Ym mha gyhoeddiad y gallai'r hysbyseb print ymddangos?
- Os yw'r hysbyseb yn rhan o ymgyrch ehangach, sut mae'n ffitio? Beth mae'n ei ychwanegu at yr ymgyrch?